

Canslwyd arholiadau'r haf eleni oherwydd y pandemig COVID-19. Er gwaethaf hynny, bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn dal i dderbyn graddau yr haf hwn.

Mae canllaw llawn i safoni graddau ar gael o'n [taflen ffeithiau](#) sydd i'w gweld yn adran Canlyniadau'r Haf 2020 ein gwefan.

Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod gwall wedi digwydd wrth bennu eich gradd?

Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi derbyn y radd anghywir, y cam cyntaf y dylech ei gymryd yw trafod hyn gyda'ch athro/darlithydd neu'r swyddog arholiadau yn eich ysgol/coleg.

Cofiwch, dim ond eich ysgol/coleg sy'n gallu apelio ar eich rhan. Os ydych chi'n Ymgeisydd Preifat, ewch i'n tudalen Diwrnod y Canlyniadau am wybodaeth bellach.

Mae'r daflen ffeithiau yn darparu trosolwg o'r broses Apelio. Mae canllaw cynhwysfawr ar gael yn ein dogfen 'Canllaw i Ganlyniadau ac Apeliadau' – gweler yr adran Canlyniadau'r Haf 2020 ar ein gwefan.

Beth yw'r rhesymau dros Apelio yn erbyn fy ngradd?

Dim ond am un neu fwy o'r rhesymau canlynol y gellir Apelio:

1. Gwall yr ysgol/coleg – roedd gwall gweinyddol yng Ngraddau Asesu'r Ganolfan neu'r Drefn Restrol a gyflwynwyd i ni.
2. Gwall wrth gyfrifo neu gyhoeddi canlyniadau a wnaed gennym ni. Gall hyn gynnwys:
 - a. Defnyddiwyd set anghywir o ddata e.e. Gaddau Asesu Canolfannau a gyflwynwyd gan eich ysgol neu goleg,
 - b. Cyflwynwyd gwall i'r set ddata,
 - c. Gwnaethom wall gweinyddol wrth gyhoeddi canlyniad.
3. Rhesymau gweithdrefnol:
 - a. Defnyddiwyd set anghywir o ddata e.e. Gaddau Asesu Canolfannau a gyflwynwyd gan eich ysgol neu goleg.

Beth na allaf apelio yn ei erbyn?

Ni ellir apelio am y rhesymau canlynol:

- Mae myfyriwr yn anghytuno â gradd asesu'r ganolfan a/neu ei safle yn y drefn restrol,
- Barn broffesiynol gan eich athro/darlithydd.

Beth yw'r broses Apelio?

Os yw eich ysgol/coleg yn cytuno bod gennych reswm dros Apelio, byddan nhw'n cyflwyno cais i ni a fydd yn mynd trwy 'Adolygiad Mewnol'. Gall hyn gymryd hyd at 42 diwrnod calendr i'w gwblhau ar ôl i ni dderbyn y cais.

Os ydych chi'n aros i gadarnhau lle yn y brifysgol yna dylai eich ysgol/coleg gyflwyno'r cais am Apêl cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

Gweler y diagram ar y dudalen ganlynol, sy'n dangos y llwybrau y gallwch chi eu dilyn.

Beth os ydw i'n credu bod gwall gyda fy ngraddau o hyd ar ôl yr 'Adolygiad Cychwynnol'?

Ar ôl i ni hysbysu eich ysgol/canolfan o ganlyniad 'Adolygiad Cychwynnol' eich Apêl, mae ganddyn nhw 14 diwrnod calendr ar ôl derbyn y canlyniad i wneud cais am 'Adolygiad Annibynnol'.

Fel yr 'Adolygiad Cychwynnol', gall hyn gymryd 42 diwrnod calendr i'w gwblhau ar ôl y dyddiad y derbyniwyd y cais gennym.

Beth yw'r terfyn amser am Apêl?

Gall eich ysgol/coleg wneud cais o'r Diwrnod Canlyniadau ymlaen. Y dyddiad olaf y gellid gwneud cais yw 17 Medi 2020. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu derbyn.

Gyda phwy ddylnw i siarad er mwyn trafod cais am Apêl?

Yn gyntaf, mae'n well trafod hyn gyda'ch athro/darlithydd - bydd yn gallu esbonio'r broses, a chadarnhau a oes gennych sail i Apelio.

CANLLAWIAU I APELIADAU HAF 2020

